CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 20 2020

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Hydref 20, 2020 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Gerallt Griffith, Emlyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Rhun Prys Jones, Llion Rh. Williams.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 22, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 22, 2020

Eitem 6.c. Llythyr (28/9/2020) oddi wrth Dr Bradley yn rhoi gwybod ni fydd Meirionnydd Running Club yn cael ei gynnal flwyddyn yma oherwydd effaith Covid-19.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 6.dd. Llythyr ateb (1/10/2020) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd yr Arolygwr yn archwilio'r cwyn am y llwybrau pan fydd amser yn caniatau.

Eitem 5. Eitem 11.b. Derbyniwyd pris gan G.W. Jones (£368.00) Gwynfor E. Jones (£175.00) i drwsio to lloches fws Bontnewydd.

Penderfynwyd penodi Gwynfor E. Jones i wneud y gwaith.

Eitem 6.b. Llythyr (12/10/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod os rydym yn cytuno i BT dynnu'r ffôn neu wrthwynebu. Blwch ffon 01341 450 246.

Penderfynwyd nid oes angen y blwch ffôn fel cytunwyd yn cyfarfod Medi 22, 2020 yn eitem 6.b. o'r cofnodion.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr 30/9/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau bydd yn cael eu cynnal ar Gweminar.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Rhoddwyd gwybod iddynt (30/9/2020) fod Karen Goswell yn dymuno bod yn bresennol ar y cwrs Cyllid Llywodraeth Leol Modiwl 6 ar 7/10/2020 am 6.30yh..

Cafwyd adroddiad gan Karen Goswell ar y cwrs. Roedd y cwrs yn cynnwys nodiadau a chwestiynau, ac roedd yn Saesneg.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Un Llais Cymru ein bod yn siomedig nid oedd y cwrs yn Gymraeg er bod cyfleusterau ar gael ar raglenni fel Zoom i ddefnyddio dwy iaith. Rhoddwyd gwybod iddynt hefyd i roi ystyriaeth i ddefnyddio iaith Cymraeg yn eu cyrsiau.

b. Llythyr (1/10/2020 oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd angen gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi. Maent angen gwybod cyn Tachwedd 1, 2020. Y gost fydd £46 y bin.

Lleoliad y biniau: Gorwyr, Capel Silo, Ffridd Goch Capel Ffrwd, Tyn Mynydd, Doluwchadda, Rhedyncochion, Rhiw Hafod Owen, Blaenau Hall (3), Hafod Geifr / Cae'r Defaid, Wenallt, Drwsynant, Rhiw Abergeirw Fach, Tyddyn Du, Adwyddŵr.

Penderfynwyd anfon y rhestr i'r aelodau i gael gwybod y biniau sydd angen eu llenwi.

c. Llythyr (8/10/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru, yn hysbysebu swydd 'Band Tim Taliadau Gwledig Cymru' yn Gogledd Cymru.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (7/10/2020) yn rhoi gwybod am eu cronfa i roi grant ariannol o £100 i £500 at brosiectau cymuned. Disgwyli'r ceisiadau oddi wrth gynghorau cymuned, grwpiau gwirfoddol, grwpiau ieuenctid, grwpiau merched ac ysgolion.
Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd gwneud cais am hysbysfwrdd i'w osod ar wal lloches bws Llanfachreth.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Medi, 2020: £1,141.26. (29 Medi, 2019: £1,139.70).
Balans yn y banc ar 29 Medi, 2020: £7,848.58. (29 Medi, 2019: £6,120.38).

b. Llythyr (17/10/2020) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

9. Archwilio

a. Rhoddwyd gwybod i BDO (5/10/2020) bod camgymeriad wedi ei wneud gyda chyflog y Clerc.

Nid ydym wedi derbyn adroddiad BDO.

O fis Mai codwyd cyflog y clerc o £1,455.40 i £1,493.28 y flwyddyn, gwahaniaeth o £37.88, £37.88 / 12 = £3.16 y mis.

Dyma'r taliadau cyflog gwnaed::
Cyflog yn cael ei roi pob 3 mis: £291.24 (i'r clerc) + £72.60 (i CTHM) = £363.84.
£363.84 / 3 = £121.28 y mis.
O fis Mai cyflog yn cael ei roi pob mis: £99.64 (i'r clerc) + 24.80 (i CTHM) = £124.44 .

	Taliadau gwnaed	Taliadau oedd i fod
Ebrill	363.84	363.84
Mai	124.44	3.16
Mehefin	124.44	3.16
Gorffennaf	124.44	124.44
Awst	124.44	124.44
Medi	124.44	124.44
Hydref	124.44	124.44
Tachwedd	124.44	124.44
Rhagfyr	124.44	124.44
Ionawr	124.44	124.44
Chwefror	124.44	124.44
Mawrth	124.44	124.44
	£1,732.68	£1,490.12

I gywiro'r camgymeriad bydd angen i'r Clerc talu y cyngor £1,732.68 - £1,490.12 = £242.56.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae staff Cyngor Gwynedd yn parhau i weithio o'u cartrefi.

b. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu tuag at gostau Cyngor Gwynedd oherwydd effaith Covid-19.

c. Roedd awgrym cael 'lockdown' trwy Gwynedd oherwydd y 'lockdown' ym Mangor.

ch. Mae angen gwneud ymoliadau ar beth yw'r diweddaraf i agor ffordd Lefel.

11. Unrhyw fater arall

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid yw'r polisiau wedi newid ers blwyddyn diweddaf.

Penderfynwyd i'r aelodau darllen y dogfennau ar wefan y Cyngor ac adrodd yn ol yn cyfarfod nesaf.

b. Cafwyd wybod gan Meurig Ashton (12/10/2020) bod angen gwneud gwaith ar lwybrau:

i. Bryncoedifor i Braich Geunant – mae angen clirio coed sydd wedi disgyn, trwsio ffens, a sychu'r tir sy'n wlyb iawn.

ii. Tŷ Hir i Pwllgelan – mae angen clirio coed sy'n cau'r llwybr.

iii. Bryncoedifor i Uwch y Capel – mae angen clirio coeden sydd ar draws y llwybr.

Penderfynwyd anfon y neges ymlaen i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd iddynt roi sylw i'r materion.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae cyflwr hwyneb ffordd Bwlchgniweired rhwng Llanfachreth a Hermon mewn cyflwr gwael gyda thyllau. Hefyd ffordd sydd mewn planhigfa goed o'r enw Ffridd Blaenau ar ffordd y Rhobell sy'n cychwyn nepell o fferm Maes Llech, Rhydymain mewn cyflwr gwael gyda thyllau.

ch. Mae angen glanhau ffenestri llochesi fysus Drwsynant a Rhydymain.

Penderfynwyd i Meurig Ashton glanhau'r ffenestri.

Llofnod: Dyddiad: